Polisi gofalwyr

GWEITHIO DRWY GANSER

NI YW MACMILLAN.
CYMORTH CANSER

Tabl cynnwys

1 Rhesymeg dros ddatblygu polisi 2
2 Polisi 2
3 Gweithredu polisi 2

1 Rhesymeg dros ddatblygu polisi

Diben y polisi hwn yw:

- nodi'r cymorth y byddwn yn ei gynnig i'n gweithwyr sydd â chyfrifoldeb gofalu, er mwyn eu helpu i gydbwyso eu hymrwymiadau gwaith a gofalu, a pharhau i fod yn effeithiol yn eu swydd
- ein helpu i recriwtio a chadw gweithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu.

2 Polisi

Rydym yn cydnabod y bydd gan rai o'n gweithwyr gyfrifoldebau gofalu am blant neu berthnasau, partneriaid neu ffrindiau agos sy'n ddifrifol wael neu anabl ac sy'n ddibynnol arnynt.

Gwerthfawrogwn y pwysau y gall hyn eu rhoi arnynt, a'i bod yn anodd ar adegau iddynt gyfuno eu gwaith a'u cyfrifoldebau gofalu.

Fel elusen gofal canser a chyflogwr cyfrifol, ein polisi ni yw:

- y bydd ein rheolwyr yn rhoi ystyriaeth sympathetig i geisiadau am gymorth gan y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, yn seiliedig ar ddealltwriaeth a rennir o'r sefyllfa a'i heffaith
- dylai gofyn am gymorth gael ei ystyried yn rhywbeth sy'n dderbyniol i bawb a dylai pawb fod yn hyderus na fydd neb yn gwahaniaethu'n annheg yn eu herbyn am fod ganddynt gyfrifoldebau gofalu
- ymdrinnir â phob cais o'r fath mewn ffordd gyfrinachol
- bydd gweithwyr y mae angen cymorth arnynt yn cael arweiniad ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt
- byddwn yn trin pob gweithiwr yn deg ac yn gyson, gan ystyried anghenion unigol achos penodol.

Bydd yr opsiynau penodol y byddwn yn eu hystyried a'r arferion rheoli y byddwn yn eu rhoi ar waith i gefnogi gofalwyr yn cynnwys:

- gweithio oriau hyblyg (gweler ein Polisi Gweithio Oriau Hyblyg ar wahân)
- opsiynau absenoldeb arbennig (gweler y polisïau ar wahân) fel absenoldeb tosturiol (hyd at bum diwrnod i ddelio ag argyfyngau), absenoldeb gofalwyr (absenoldeb a gynlluniwyd i ddelio â chyfrifoldebau gofalu am hyd at 30 diwrnod o fewn cyfnod treigl o 12 mis) ac absenoldeb estynedig di-dâl
- cymorth gan y rheolwr llinell i hysbysu aelodau'r tîm am y sefyllfa a chadw mewn cysylltiad yn ystod cyfnod o absenoldeb ac ymdrin â'r cyfnod pan ddychwelir i'r gwaith
- cael gafael ar wybodaeth a chyngor perthnasol
- cymorth cyfrinachol gan ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr (a all gynnwys cwnsela yn ogystal â gwybodaeth a chyngor ymarferol)
- gwybodaeth am grwpiau hunangymorth a chymorth allanol Macmillan i'r rhai sy'n gofalu am bobl â chanser
- cyfeillion gwaith - cydweithwyr sydd wedi wynebu profiad gofalu tebyg neu sy'n wynebu un ar y pryd
- i'r graddau y bydd ein hadnoddau yn caniatáu hynny, darparu staff dros dro pan fydd absenoldeb hir oherwydd cyfrifoldebau gofalu. Mae gan yr adran Adnoddau Dynol gyllideb ganolog at y diben hwn.

Mae gan reolwyr gyfrifoldeb dros sicrhau eu bod yn ymgyfarwyddo â'r polisi hwn ac yn gweithio oddi fewn iddo. Mae ganddynt gyfrifoldeb hefyd dros sicrhau bod pob gweithiwr yn ymwybodol o'r polisi ac yn deall eu cyfrifoldeb hwy a chyfrifoldebau eu sefydliad mewn perthynas ag ef. Ceidw Macmillan yr hawl i ddiwygio'r polisi hwn o bryd i'w gilydd.

3 Gweithredu polisi

Anogir gweithwyr i hysbysu eu rheolwr os ydynt yn gofalu am rywun a bod angen cymorth arnynt. Yn y ffordd hon gallwn gydweithio i sicrhau, lle bo'n bosibl, y gallant barhau yn eu swydd a chydbwyso eu gwaith a'u hymrwymiadau gofalu yn effeithiol.

Os oes gennych gyfrifoldebau gofalu a bod angen cymorth arnoch, dylech siarad â'ch rheolwr llinell ac egluro eich sefyllfa gan nodi pa gymorth a fyddai'n ddefnyddiol yn eich barn chi. Os ydych am wneud cais i weithio oriau hyblyg, rhoddir y manylion yn ein Polisi Gweithio Oriau Hyblyg (cyf: HR12, Nodiadau Lotus, yn y gronfa ddata Polisïau a Gweithdrefnau, o dan Adnoddau Dynol). Bydd eich rheolwr llinell yn trafod yr opsiynau cymorth sydd ar gael gyda chi. Gyda'ch gilydd dylech geisio ymchwilio i'r hyn sy'n bosibl ac yn addas a chytuno arno.

Diffiniad o 'ofalwr': Diffinnir gofalwr fel unigolyn sy'n rhoi cryn dipyn o ofal di-dâl, neu sy'n bwriadu gwneud hynny yn rheolaidd i unigolyn arall. Gallai hyn gynnwys rhywun sy'n byw gyda chanser neu unrhyw salwch critigol arall.

Mae Cymorth Canser Macmillan yn gwella bywydau pobl sy'n cael eu heffeithio gan ganser. Rydym yn darparu cymorth ymarferol, meddygol, emosiynol ac ariannol ac yn anelu at sicrhau gwell gofal canser. Bydd un o bob tri ohonom yn cael canser. Mae 1.2 miliwn ohonom yn byw gydag ef. Rydym oll yn cael ein heffeithio gan ganser. Gall pawb helpu. Ni yw Macmillan.

Cymorth Canser Macmillan
89 Albert Embankment, London SE1 7UQ
Llinell Gymorth Canser **0808 808 2020**

www.macmillan.org.uk/work

® Cymorth Canser Macmillan, Tachwedd 2007.
Rhif Elusen Gofrestredig 261017.
Rhif Elusen Ynys Manaw 604. MAC11117_MGP1W